# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DEDDF CYMALAU HEDDLU'R DREF 1847
## (ADRAN 21)

## DATHLIAD NADOLIG TREGARON 2024

---

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn canlynol o dan Adran 21 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 er mwyn Atal Rhwystrau ayb.
Rhwng 18:00 ddydd Iau 5ed Rhagfyr 2024 a 10:00 ddydd Sadwrn 7fed Rhagfyr 2024, oherwydd y digwyddiad uchod, bydd y rhan o'r ffordd a adwaenir fel y Sgwâr (y rhan sydd o flaen y Talbot), Tregaron, yn Sir Ceredigion dan ei sang a gall fod rhwystrau arni.
Mae Cyngor Sir Ceredigion yn unol â'r pwerau a roddir gan Adran 21, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 DRWY HYN YN GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO at bwrpas atal rhwystrau ar y cyfryw ffyrdd ar y cyfryw ddiwrnodau y bydd yn rhaid cadw at y rheoliadau canlynol:-

1. Yn ddibynnol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 3 a 4, bydd y rhan honno o'r ffordd a adwaenir fel y Sgwâr, Tregaron yn sir Ceredigion, ar gau i bob cerbyd gan gynnwys beiciau pedal rhwng 18.00 ddydd Iau 5ed Rhagfyr a 10:00 ddydd Sadwrn 7fed Rhagfyr 2024.
2. Nid oes llwybr arall.
   Cedwir mynediad i gerddwyr ar bob adeg.
3. Ni fydd darpariaethau erthygl 1 ond yn gymwys ar yr adegau ac i'r graddau y bydd y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yma wedi'u dangos gan arwyddion traffig neu swyddog heddlu mewn lifrai.
4. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 1 o'r gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir yng nghyswllt y digwyddiadau sydd yn rheswm i'r gorchymyn hwn, nac unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu.

Y gosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn yw dirwy dim mwy na Mil o Bunnau.

Dyddiedig y 21 o Dachwedd 2024

Elin Prysor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion.